



Dyfarniad Galwedigaethol Lefel 1/2 CBAC/Eduqas mewn Busnes Adwerthu (Dyfarniad Technegol)

Uned 3 Asesiad dan Reolaeth Briffiau Asesu Enghreifftiol

Cynnwys

UNED 3: Marsiandïo a marchnata cynhyrchion adwerthu	Tudalen
Briff	4
Tasgau Aseiniadau	5
Canllaw i Reolaethau	6
Cynllun Marcio	9

Uned 3: Marsiandïo a marchnata cynhyrchion adwerthu

Aseiniad

DEUNYDDIAU ASESU ENGHREIFFTIOL

Amser asesu: 8 AWR

CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Darllenwch y briff yn ofalus cyn dechrau'r aseiniad.

Byddwch yn cael marciau am dasgau allweddol a gaiff eu cwblhau yn ystod y ffenestr Asesu. Caiff cyfanswm o 8 awr ei neilltuo ar gyfer y tasgau a gaiff eu hasesu. Caiff hyn ei amlinellu'n glir yn y briff.

Dylai eich gwaith gynnwys gwybodaeth a dealltwriaeth a feithrinwyd gennych yn ystod sesiynau addysgu yn yr ystafell ddosbarth.

Darllenwch y wybodaeth a thasgau'r aseiniad yn ofalus er mwyn sicrhau eich bod yn deall yr hyn sydd ei angen.

Mae'n bwysig eich bod yn gweithio'n annibynnol ar yr ymgeiswyr eraill ac yn sicrhau mai eich gwaith eich hun heb gymorth neb yw'r gwaith sy'n cael ei gynhyrchu.

Gwiriwch eich gwaith yn ofalus er mwyn sicrhau ei fod yn gywir.

GWYBODAETH I YMGEISWYR

Mae'r asesiad hwn yn cynnig cyfle i ddod â gwybodaeth a dealltwriaeth o bob rhan o'r cwrs astudio llawn ynghyd.

Bydd angen i chi a'ch athro lofnodi datganiad mai eich gwaith chi eich hun yw'r holl waith a gaiff ei gyflwyno.

Ni ddylech drafod na rhannu unrhyw fanylion am y senario na'r tasgau.

Dyfarniad Galwedigaethol Lefel 1/2 CBAC/Eduqas mewn Busnes Adwerthu

(Dyfarniad Technegol)

Uned 3 – Marsiandïo a marchnata cynhyrchion adwerthu

Asesiad dan Reolaeth

Briff yr Aseiniad

Cyflwyniad

Ar ôl astudio amrywiaeth o sefydliadau adwerthu a sut maent yn marsiandïo ac yn marchnata eu busnes, gofynnir i chi'n annibynnol ddylunio gosodiad marsiandiaeth weledol ac un eitem o ddeunyddo hyrwyddo ar gyfer un busnes adwerthu.

Briff

Adwerthwr dillad ac ategolion ffasiwn annibynnol â siop mewn rhan brysur o ddinas yw *Urban Icon*. Mae'n gwerthu dewis o gynhyrchion ffasiwn brandiau premiwm i ferched a dynion. Mae'r busnes adwerthu yn gwmni cyfyngedig preifat ac mae wedi bod yn masnachu ers 12 mlynedd.

Mae *Urban Icon* hefyd yn gwerthu ei gynhyrchion drwy ei siop ar-lein a'i ap ei hun, a lanswyd yn ddiweddar.

Mae gan y siop ddau lawr â ffenestri mawr y naill ochr i'r fynedfa ar y llawr daear. Caiff y ffenestri hyn eu defnyddio'n aml ar gyfer gweithgareddau hyrwyddo ac i arddangos cynhyrchion.

Mae cynllun y siop fel a ganlyn:

Llawr daear: ffasiwn ac ategolion i ferched fel dillad, sgarffiau, esgidiau, gemwaith a bagiau llaw.

Llawr cyntaf: ffasiwn ac ategolion i ddynion fel dillad, gwregysau, esgidiau, waledi a theis.

Mae *Urban Icon* wrthi'n cynllunio ar gyfer marchnata ei gasgliad o ffasiwn ac ategolion i ferched a dynion ar gyfer haf 2022. Mae nodau *Urban Icon* fel a ganlyn:

- cynyddu gwerthiant y siop
- hyrwyddo dewis newydd o ddillad gwerth uchel gan ddylunwyr i ferched a dynion
- gwella ymwybyddiaeth o'i siop ar-lein a'i ap.

Mae angen i chi wneud y canlynol:

- Dylunio gosodiad marsiandiaeth weledol ar gyfer **un** o'r ffenestri. Caiff ffasiwn ac ategolion i ferched eu harddangos ar un ochr a ffasiwn ac ategolion i ddynion ar yr ochr arall. **Dewiswch NAILL AI ffasiwn ac ategolion i ferched NEU ffasiwn ac ategolion i ddynion.** Mae gan bob ffenestr ofod gosod 3 metr o led, 3 metr o uchder ac 1.5 metr o ddyfnder.
- Dyluniwch daflen A5 ddwyochrog i'w dosbarthu i siopwyr yng nghanol y ddinas.
- Dadansoddwch y farsandiaeth weledol a gwerthuswch y defnydd o'r cymysgedd marchnata.

Cynnwys yr uned	Tasgau:	Tystiolaeth sy'n Ofynnol	Amser	Rheolaethau	AA	Marciau
3.1.2 3.1.3 3.1.6	1(a)	Dyluniwch y gosodiad marsiandïaeth weledol ar gyfer un ffenestr. Bydd y gosodiad marsiandïaeth weledol naill ai ar gyfer ffasiwn ac ategolion i ferched neu ffasiwn ac ategolion i ddynion. Rhaid i chi ddefnyddio gwaith anodi i gefnogi eich dyluniad.	Braslun 2D wedi'i anodi, naill ai wedi'i dynnu â llaw neu wedi'i gynhyrchu gan ddefnyddio TGCh.	4 awr	Goruchwyliaeth: Anuniongyrchol Canllawiau: Uniongyrchol Adnoddau: Caniateir (tasg 1a) Ni chaniateir (tasgau 1(b), 1(c), 1(ch)) Cydweithio: Ni chaniateir	AA2 10
3.1.3 3.1.5	1(b)	Dadansoddwch sut mae'r gosodiad marsiandïaeth weledol a ddyluniwyd gennych yn bodloni egwyddorion marsiandïaeth weledol. Rhaid i chi ddangos eich dealltwriaeth o amrywiaeth o egwyddorion marsiandïaeth weledol.	Adroddiad ysgrifenedig.		AA1 AA3	2 4
3.1.1	1(c)	Dadansoddwch sut mae'r gosodiad marsiandïaeth weledol a ddyluniwyd gennych yn helpu i gyflawni nodau Urban Icon ac yn ymgysylltu â'i fathau o gwsmeriaid.	Adroddiad ysgrifenedig.		AA2 AA3	4 4
3.1.4	1(ch)	Esboniwch sut y gellir addasu egwyddorion marsiandïaeth weledol ar gyfer siop ar-lein ac ap Urban Icon. Rhaid i chi ddangos eich dealltwriaeth o'r ffordd y caiff amrywiaeth o egwyddorion marsiandïaeth weledol eu haddasu ar gyfer e-fasnach ac m-fasnach (ar-lein ac ar apiau).	Adroddiad ysgrifenedig.		AA1 AA2	2 4
3.2.3	2(a)	Dyluniwch y daflen A5 ddwyochrog i'w dosbarthu i siopwyr yng nghanol y ddinas. Rhaid i chi ddefnyddio gwaith anodi i gefnogi eich dyluniad.	Cynnyrch dylunio terfynol, wedi'i gynhyrchu gan ddefnyddio TGCh.	4 awr	Goruchwyliaeth: Anuniongyrchol Canllawiau: Uniongyrchol Adnoddau: Caniateir (tasg 2a) Ni chaniateir (tasgau 2(b), 2(c), 2(ch)) Cydweithio: Ni chaniateir	AA2 10
3.2.1	2(b)	Dadansoddwch sut mae'r daflen A5 ddwyochrog yn targedu darpar gwsmeriaid Urban Icon a'i nodau.	Adroddiad ysgrifenedig.		AA2 AA3	2 2
3.2.4	2(c)	Esboniwch sut y gallai Urban Icon ddefnyddio technoleg at ddibenion hyrwyddo. Rhaid i chi ddangos eich dealltwriaeth o amrywiaeth o ffyrdd y gellir cynnal gweithgareddau hyrwyddo gan ddefnyddio technoleg.	Adroddiad ysgrifenedig.		AA1 AA2	2 4
3.2.2 3.2.5	2(ch)	Gwerthuswch sut y bydd Urban Icon yn defnyddio'r cymysgedd marchnata er mwyn cyflawni ei nodau mewn amgylchedd cystadleuol a dynamig. Rhaid i chi ddangos eich dealltwriaeth o bedair elfen y cymysgedd marchnata.	Adroddiad ysgrifenedig.		AA1 AA2 AA3	2 2 6
Cyfanswm y Marciau						60

Canllaw i Reolaethau

Caiff nifer o wahanol agweddau eu rheoli fel rhan o'r broses asesu fewnol ar gyfer ein Dyfarniadau Galwedigaethol. Y rhain yw:

- goruchwyliaeth
- canllawiau
- adnoddau
- cydweithio.

Ailddrafftio

Caniateir ailddrafftio o fewn yr amser ar gyfer yr asesiad dan reolaeth a heb adborth gan athrawon.

Amser

Caiff cyfanswm o 8 awr ei neilltuo ar gyfer y tasgau a gaiff eu hasesu. Ni all ymgeiswyr gael mwy o amser na hyn. Mae tasgau Uned 3 yn nodi amseroedd a argymhellir er arweiniad yn unig. Dylai canolfannau annog ymgeiswyr i beidio â mynd dros yr amseroedd a argymhellir ac i sicrhau eu bod yn neilltuo digon o amser ar gyfer y gwaith hwn.

Goruchwyliaeth

Ceir un lefel goruchwyliaeth drwy gydol yr asesiad Uned 3:

Goruchwyliaeth anuniongyrchol	<p>Nid oes rhaid goruchwyllo'r ymgeiswyr yn uniongyrchol drwy'r amser. Rhaid i'r ganolfan sicrhau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • bod pob ymgeisydd yn cymryd rhan yn yr asesiad • bod digon o oruchwyliaeth i sicrhau y gellir dilysu'r gwaith • mai gwaith unigol yr ymgeisydd ei hun yw'r gwaith a gyflwynir i'w asesu. <p>Rhaid i waith ymgeiswyr aros yn y ganolfan bob amser, a chael ei storio'n ddiogel rhwng sesiynau ar yr amserlen.</p>
--	---

Arweiniad

Ceir un lefel o arweiniad drwy gydol yr asesiad Uned 3:

Categori Cyngor/Adborth:	Uniongyrchol
Ni all athrawon wneud y canlynol:	
Adolygu gwaith ymgeiswyr a rhoi cyngor ar lafar ac yn ysgrifenedig ar lefel gyffredinol er mwyn sicrhau canlyniad gweithredol.	
Gwerthuso cynnydd hyd yn hyn a chynnig ffyrdd eang o wella.	
Rhoi cyngor manwl a phenodol ar sut i wella fersiynau drafft er mwyn bodloni meini prawf asesu.	
Rhoi adborth manwl ar wallau a hepgoriadau sy'n gadael ymgeiswyr heb gyfle i ddangos y gallant weithio ar eu liwt eu hunain.	
Ymyrryd yn bersonol i wella cyflwyniad neu gynnwys darn o waith.	

Adnoddau

Ceir dwy lefel o adnoddau drwy gydol yr asesiad Uned 3:

Ni chaniateir	<p>Ni chaniateir defnyddio adnoddau.</p> <p>Rhaid i waith ymgeiswyr aros yn y ganolfan bob amser, a chael ei storio'n ddiogel rhwng sesiynau ar yr amserlen.</p> <p>Os yw'r fanyleb yn caniatáu i ymgeiswyr ddod â'u cyfrifiaduron eu hunain neu ddyfeisiau electronig eraill i sesiynau dan oruchwyliaeth ffurfiol, rhaid cynnal gwiriadau priodol er mwyn sicrhau y caniateir yr holl ddeunyddiau sydd wedi'u storio ar y ddyfais ac nad oes modd cael mynediad i'r rhyngwrwyd o'r ddyfais.</p>
Caniateir	<p>Mae gan ymgeiswyr yr hawl i ddefnyddio adnoddau a/neu nodiadau paratoi yn ôl cyfarwyddyd y briff neu'r arweiniad yn yr uned.</p> <p>Rhaid i waith ymgeiswyr aros yn y ganolfan bob amser, a chael ei storio'n ddiogel rhwng sesiynau ar yr amserlen.</p> <p>Dylai canolfannau gyfeirio at fanylebau neu ganllawiau pwnc-benodol.</p>

Lle nodir lefel rheolaeth 'caniateir', caiff adnoddau eu cyfyngu fel a ganlyn:

Tasg:	Adnoddau a ganiateir:
1(a)	Dim ond er mwyn cael gafael ar ddelweddau a ddefnyddiwyd i gynhyrchu'r deunyddiau hyrwyddo a gynhyrchwyd yn ystod tasgau 1(1) (dylunio gosodiad marsiandiaeth weledol) a
1(b)	2(1) (dylunio deunyddiau hyrwyddo) y caniateir defnyddio'r rhyngwrwyd.

Cydweithio

Ceir un lefel cydweithio yn yr asesiad Uned 3:

Ni chaniateir	Ni ddylai ymgeiswyr gydweithio mewn unrhyw ffordd yn ystod y dasg.
----------------------	--

Cynllun marcio

Arweiniad

Gridiau asesu ar gyfer Asesiad dan Reolaeth Uned 3

Egwyddorion marcio cyffredinol

- Dim ond marciau cyfan a ddyfernir (ni ddyfernir hanner marciau, na ffracsiynau eraill).
- Dim ond pan gaiff y nodweddion hyn eu hasesu'n benodol gan y cwestiwn fel y dynodir gan y cynllun marcio y dylid barnu atebion yn ôl ansawdd y sillafu, yr atalnodi a'r gramadeg. Fodd bynnag, dylai'r ystyr fod yn ddiamwys.
- Dylid dyfarnu marciau gan ddefnyddio'r amrediad marciau llawn a ddiffinnir yn y cynllun marcio ar gyfer y cwestiwn (fodd bynnag, mae'n bosibl y caiff defnydd o'r amrediad marciau llawn ei gyfyngu yn ôl ansawdd ymatebion yr ymgeiswyr a welir).
- Mae'r marciau a ddyfernir yn gwbl seiliedig ar y gofynion fel y'u diffinnir yn y cynllun marcio. Ni ddylid dyfarnu marciau gan ystyried trothwyon graddau na disgrifyddion graddau.

Cynlluniau marcio seiliedig ar fandiau

Mae cynlluniau marcio seiliedig ar fandiau wedi'u rhannu fel bod gan bob band mewn adran ddisgrifydd perthnasol. Mae'r disgrifydd ar gyfer y band yn darparu disgrifiad o lefel y perfformiad ar gyfer y band hwnnw. Mae pob band yn cynnwys marciau.

Cyn marcio, dylai aseswyr yn gyntaf ddarllen ac anodi gwaith ymgeisydd er mwyn nodi'r dystiolaeth sy'n cael ei hasesu. Ar ôl cwblhau'r broses anodi, gellir cymhwyso'r cynllun marcio. Proses dau gam yw hon.

Cam 1 – Penderfynu ar y band

Gan ddechrau gyda'r band isaf, dylai aseswyr edrych ar yr adran briodol o waith yr ymgeisydd a gweld a yw'n cyd-fynd â disgrifydd y band marcio ar gyfer yr adran honno. Os bodlonir disgrifydd y band isaf, dylai aseswyr symud i fyny i'r band nesaf ac ailadrodd y broses hon ar gyfer pob band nes bydd y disgrifydd yn cyfateb i'r gwaith.

Os yw gwaith ymgeisydd yn trafod agweddau gwahanol ar fandiau gwahanol yn y cynllun marcio, dylid defnyddio dull 'ffit orau' er mwyn penderfynu ar y band ac yna dylid defnyddio gwaith yr ymgeisydd i benderfynu ar y marc o fewn y band. Er enghraifft os yw gwaith ym mand 2 yn bennaf ond bod rhywfaint o'r cynnwys yn waith band 3, byddai'r gwaith yn cael ei roi ym mand 2, ond byddai'r marc a ddyfernir yn agos at frig band 2 oherwydd y cynnwys band 3.

Ni ddylai aseswyr dynnu marciau oddi ar ymgeiswyr am adael mân bethau allan mewn rhannau dibwys o'u gwaith.

Cam 2 – Penderfynu ar y marc

Ar ôl penderfynu ar y band, gall aseswyr fynd ati i bennu marc. Bydd CBAC yn darparu deunydd enghreifftiol y rhoddwyd marc iddo yn barod, a dylid defnyddio hwn fel deunydd cyfeirio wrth asesu'r gwaith.

Wrth farcio, gall aseswyr ddefnyddio'r enghreifftiau hyn i benderfynu a yw gwaith ymgeisydd yn well, yn waeth neu o safon gymharol i'r enghraifft. Caiff aseswyr eu hatgoffa bod angen iddynt gyfeirio'n ôl at y gwaith wrth iddynt gymhwysu'r cynllun marcio er mwyn cadarnhau bod y band a'r marc a ddyrennir yn briodol i'r gwaith a gyflwynwyd.

Os nad yw'r gwaith yn haeddu credyd, hynny yw, nid yw'n cynnwys unrhyw beth o arwyddocâd i'r project, neu os na ddarparwyd ateb o gwbl, ni ddylid dyfarnu unrhyw farciau.

Safoni mewnlol

Os oes mwy nag un athro mewn canolfan, mae'n hanfodol bod gwaith o bob grŵp addysgu'n cael ei safoni'n fewnlol. Bwriad hyn yw sicrhau bod yr asesiad terfynol yn adlewyrchu un safon y cytunwyd arni ar gyfer pob grŵp addysgu. Bydd pob canolfan yn derbyn adborth manwl ynglŷn â'r broses gymedroli drwy'r wefan ddiogel ar ddiwrnod y canlyniadau.

Gwahaniaethu o fewn ein cynlluniau marcio

Mae'r grid canlynol yn dangos ein man cychwyn ar gyfer llunio ein cynlluniau marcio. Fe'u defnyddir er mwyn sicrhau y gellir gwahaniaethu rhwng ein bandiau. Bydd cynlluniau marcio yn defnyddio'r tabl hwn fel sail ar gyfer asesu pob cwestiwn ond byddant yn adlewyrchu gofynion penodol y cwestiwn.

Band Disgrifydd	AA1	AA2	AA3
Ardderchog	<ul style="list-style-type: none"> Yn ymwybodol o amrediad eang o wybodaeth fanwl a chywir. Yn dangos dealltwriaeth sydd wedi'i datblygu'n llawn ac sy'n dangos perthnasedd i ofynion y cwestiwn. 	<ul style="list-style-type: none"> Caiff gwybodaeth a dealltwriaeth eu cymhwyso'n gyson at gyd-destun y cwestiwn/tasg. Caiff sgiliau ymarferol eu cymhwyso'n gyson ac yn effeithiol ac maent o safon uchel. Yn gallu llunio dehongliad cwbl ddatblygedig a thrylwyr sy'n hollol gywir. 	<ul style="list-style-type: none"> Defnyddir sgiliau dadansoddi a gwerthuso mewn ffordd hynod effeithiol. Caiff tystiolaeth ei dethol i greu dadl effeithiol a chytbwys. Gwerthusiad manwl ac wedi'i gyfiawnhau sy'n cynnig barn gadarn, yn arwain at gasgliadau rhesymol.
Da lawn	<ul style="list-style-type: none"> Yn meddu ar amrediad o wybodaeth fanwl a chywir. 	<ul style="list-style-type: none"> Caiff gwybodaeth a dealltwriaeth eu cymhwyso at gyd-destun y cwestiwn/tasg. 	<ul style="list-style-type: none"> Defnyddir sgiliau dadansoddi a gwerthuso mewn ffordd effeithiol.
Da	<ul style="list-style-type: none"> Yn dangos dealltwriaeth wedi'i datblygu'n dda sy'n berthnasol i ofynion y cwestiwn. Defnydd manwl o derminoleg. 	<ul style="list-style-type: none"> Caiff sgiliau ymarferol eu cymhwyso'n effeithiol ac maent o safon uchel i ganolig. Yn gallu llunio dehongliad datblygedig sy'n gywir ar y cyfan. 	<ul style="list-style-type: none"> Caiff tystiolaeth ei dethol i greu dadl ddatblygedig, na chaiff o bosibl ei chyflwyno mewn ffordd gyfartal. Gwerthusiad manwl sy'n cynnig barn gadarn ar y cyfan, gyda pheth cysylltiad rhwng casgliadau rhesymol a thystiolaeth.
Boddhaol	<ul style="list-style-type: none"> Yn cynnwys gwybodaeth gywir. Yn dangos dealltwriaeth gadarn sy'n berthnasol i ofynion y cwestiwn/tasg Defnydd manwl o derminoleg ar y cyfan. 	<ul style="list-style-type: none"> Caiff gwybodaeth a dealltwriaeth eu cymhwyso'n bennaf at gyd-destun y cwestiwn/tasg. Caiff sgiliau ymarferol eu cymhwyso'n briodol ac maent o safon ganolig. Yn gallu llunio dehongliad cadarn sy'n gywir ar y cyfan. 	<ul style="list-style-type: none"> Defnyddir sgiliau dadansoddi a gwerthuso mewn ffordd briodol a chadarn. Caiff tystiolaeth ei dethol i greu dadl gadarn NEU Caiff tystiolaeth ei dethol i greu dadl unochrog fanwl. Gwerthusiad sy'n cynnig rhai barnau, gyda rhywfaint o gyswllt rhwng casgliadau a thystiolaeth.

Sylfaenol	<ul style="list-style-type: none"> • Yn dangos peth gwybodaeth gywir. • Yn dangos dealltwriaeth rannol sy'n berthnasol i ofynion y cwestiwn. • Peth defnydd o derminoleg briodol. 	<ul style="list-style-type: none"> • Caiff gwybodaeth a dealltwriaeth eu cymhwysu'n rhannol at gyd-destun y cwestiwn/tasg. • Mae sgiliau ymarferol o safon lefel ganolig i isel. • Yn gallu llunio rhywfaint o ddehongliad sy'n dangos peth cywirdeb. 	<ul style="list-style-type: none"> • Yn defnyddio sgiliau dadansoddi a gwerthuso mewn ffordd briodol gan ddangos lefel gadarn o gymhwysedd ond efallai nad oes manylder. • Caiff tystiolaeth ei dethol i greu dadl unochrog • Gwerthusiad sy'n cynnig barn a chasgliadau cyffredinol, heb lawer o dystiolaeth.
Cyfyngedig	<ul style="list-style-type: none"> • Gwybodaeth gyfyngedig gyda pheth perthnasedd i'r pwnc neu'r cwestiwn. • Prin yw'r datblygiad a welir, neu nid oes datblygiad o gwbl. • Prin iawn yw'r defnydd o derminoleg, neu ni chaiff ei defnyddio o gwbl. 	<ul style="list-style-type: none"> • Ni chaiff gwybodaeth a dealltwriaeth eu cymhwysu rhyw lawer at gyd-destun y cwestiwn/tasg. • Mae sgiliau ymarferol o safon lefel isel. • Os oes dehongliad o gwbl, mae hwnnw'n ddehongliad syml a chyfyngedig iawn yw'r cywirdeb. 	<ul style="list-style-type: none"> • Defnyddir sgiliau dadansoddi a gwerthuso gyda chymhwysedd cyfyngedig. • Gwerthusiad heb ei gefnogi sy'n cynnig barnau/casgliadau syml neu ddim barnau/casgliadau o gwbl.

O edrych ar bob un o'n cynlluniau marcio, fe welwch fod gan bob band ddilyniant o ddisgrifyddion perfformiad. Mae'r disgrifyddion yn gweithio fel ysgol: o ris waelod, i ris uchaf. Y band lefel isaf 'Cyfyngedig' yw'r disgrifydd symlaf o ran perfformiad ymgeiswyr. Mae'r disgrifyddion yn datblygu drwy'r grid i'r agwedd fwy heriol ar yr amcan asesu hwnnw. Mae'n bwysig nodi na fydd pob cwestiwn yn defnyddio pob pwynt bwled a restrir yn y tabl uchod, ond dylai ymgeiswyr ddangos **yr holl ofynion** a gaiff eu cynnwys yn y cynlluniau marcio cyhoeddedig er mwyn cyflawni marciau llawn ar lefel benodol. Os bydd ymgeisydd yn cael marciau llawn ar lefel benodol, dylai'r marcwyr weld a yw hefyd yn dangos unrhyw rai o'r gofynion o'r lefel nesaf i fyny. Yn aml, bydd ymgeiswyr yn cyflawni rhai o'r disgrifyddion ar un lefel, ond nid pob un ohonynt. Os felly, dylid defnyddio egwyddor ffit orau.

Ceir rhagor o wybodaeth am y ffordd y cafodd y cynlluniau marcio ar gyfer ein Dyfarniadau Galwedigaethol eu llunio, gan gynnwys gwybodaeth am ddefnyddio'r bandiau marciau ar gyfer Ardderchog, Da Iawn a Da, yn y Canllaw Gweinyddu ar gyfer Dyfarniadau Galwedigaethol.

Tasg 1(a)

Dyluniwch y gosodiad marsiandïaeth weledol ar gyfer un ffenestr. Bydd y gosodiad marsiandïaeth weledol naill ai ar gyfer ffasiwn ac ategolion i ferched neu ffasiwn ac ategolion i ddynion.

Rhaid i chi ddefnyddio gwaith anodi i gefnogi eich dyluniad.

[10 marc]

Band	AA2
4	<p>9-10 marc</p> <p>Ymateb ardderchog sy'n dangos:</p> <ul style="list-style-type: none"> dyluniad effeithiol a manwl iawn o'r gosodiad marsiandïaeth weledol sy'n gwbl briodol ar gyfer Urban Icon bod egwyddorion dylunio wedi'u cymhwyso'n gyson ym mhob rhan o'r dyluniad gwaith anodi manwl i gefnogi'r dyluniad, a gaiff ei fynegi'n glir heb lawer o hepgoriadau, os o gwbl.
3	<p>6-8 marc</p> <p>Ymateb da sy'n dangos:</p> <ul style="list-style-type: none"> dyluniad effeithiol o'r gosodiad marsiandïaeth weledol sy'n briodol ar gyfer Urban Icon bod egwyddorion dylunio wedi'u cymhwyso ym mhob rhan o'r dyluniad gwaith anodi i gefnogi'r dyluniad, a gaiff ei fynegi'n glir heb lawer o hepgoriadau.
2	<p>3-5 marc</p> <p>Ymateb sylfaenol sy'n dangos:</p> <ul style="list-style-type: none"> dyluniad o'r gosodiad marsiandïaeth weledol sy'n rhannol briodol ar gyfer Urban Icon bod rhai egwyddorion dylunio wedi'u cymhwyso ym mhob rhan o'r dyluniad rhywfaint o waith anodi i gefnogi'r dyluniad, a all gynnwys hepgoriadau.
1	<p>1-2 marc</p> <p>Ymateb cyfyngedig sy'n dangos:</p> <ul style="list-style-type: none"> dyluniad cyfyngedig o'r gosodiad marsiandïaeth weledol mai prin yw'r egwyddorion dylunio sydd wedi'u cymhwyso ym mhob rhan o'r dyluniad gwaith anodi prin i gefnogi'r dyluniad, neu ddim o gwbl.
	<p>0 marc</p> <p>Nid yw'r ateb yn haeddu credyd neu ni wnaed ymgais i ateb.</p>

Canllawiau Asesu:

- Caiff y dyluniad ei lunio â llaw neu ei gynhyrchu gan ddefnyddio TG. Gall y dyluniad fod ar bapur A3 a gall gynnwys delweddau er mwyn dangos sut y caiff y farsandiaeth ei harddangos. Mae'r dyluniad yn bodloni gofynion maint y briff (ffenestr y siop). Bydd y dyluniad naill ai ar gyfer ffasiwn ac ategolion i ferched neu i ddynion.
- Bydd y dyluniad yn cynnwys gwaith anodi sy'n disgrifio'r farsandiaeth a pham y defnyddiwyd y dyluniad.
- Ceir defnydd clir a chyson o ddelweddau addas, â chynhyrchion addas sy'n dangos y dewis o ddiillad ac ategolion ffasiwn brand a gynigir gan Urban Icon. Rhoddir ystyriaeth i'r math o adwerthu a graddfa adwerthu Urban Icon.

DRAFFET

Tasg 1(b)

Dadansoddwch sut mae'r gosodiad marsiandïaeth weledol a ddyluniwyd gennych yn bodloni egwyddorion marsiandïaeth weledol.

Rhaid i chi ddangos eich dealltwriaeth o amrywiaeth o egwyddorion marsiandïaeth weledol. [6 marc]

AA1	AA1	AA2	AA3	Cyfanswm y Marciau
<p>Dyfarnwch 2 farc am ddealltwriaeth o amrywiaeth o egwyddorion marsiandïaeth weledol.</p>	2		4	6
<p>Dyfarnwch 1 marc am ddealltwriaeth o amrywiaeth gyfyngedig o egwyddorion marsiandïaeth weledol (llai na phedair).</p>				
<p>AA3</p> <p>Dyfarnwch 4 marc am ddadansoddiad cwbl ddatblygedig o'r ffordd mae'r dyluniad marsiandïaeth weledol yn bodloni egwyddorion marsiandïaeth weledol.</p>				
<p>Dyfarnwch 3 marc am ddadansoddiad datblygedig o'r ffordd mae'r dyluniad marsiandïaeth weledol yn bodloni egwyddorion marsiandïaeth weledol.</p>				
<p>Dyfarnwch 2 farc am ddadansoddiad sylfaenol o'r ffordd mae'r dyluniad marsiandïaeth weledol yn bodloni egwyddorion marsiandïaeth weledol.</p>				
<p>Dyfarnwch 1 marc am ddadansoddiad cyfyngedig o'r ffordd mae'r dyluniad marsiandïaeth weledol yn bodloni egwyddorion marsiandïaeth weledol.</p>				

Canllawiau Asesu:

Dylai ymgeiswyr:

- nodi egwyddorion marsiandïaeth weledol gan gynnwys adrodd stori, tirlunio, lliw a golau, manylion, gweadedd, technoleg a diogelwch.
- dadansoddi sut mae'r egwyddorion hyn wedi tywys y broses o ddylunio'r gosodiad marsiandïaeth weledol.

Tasg 1(c)

Dadansoddwch sut mae'r gosodiad marsiandïaeth weledol a ddyluniwyd gennych yn helpu i gyflawni nodau Urban Icon ac yn ymgysylltu â'i fathau o gwsmeriaid. [8 marc]

AA2	AA1	AA2	AA3	Cyfanswm y Marciau
<p>Dyfarnwch 4 marc am gymhwyso'r wybodaeth at Urban Icon mewn ffordd ardderchog, gan wneud pwyntiau sy'n gwbl berthnasol i nodau Urban Icon a'i fathau o gwsmeriaid.</p>		4	4	8
<p>Dyfarnwch 3 marc am gymhwyso'r wybodaeth at Urban Icon mewn ffordd dda, gan wneud pwyntiau sy'n berthnasol i nodau Urban Icon a'i fathau o gwsmeriaid.</p>				
<p>Dyfarnwch 2 marc am gymhwyso'r wybodaeth at Urban Icon mewn ffordd sylfaenol, gan wneud pwyntiau sy'n berthnasol i nodau Urban Icon a'i fathau o gwsmeriaid ond nad ydynt o bosibl wedi'u cefnogi.</p>				
<p>Dyfarnwch 1 marc am gymhwyso'r wybodaeth at nodau Urban Icon a'i fathau o gwsmeriaid mewn ffordd gyfyngedig, gan wneud pwyntiau cyffredinol ar y cyfan.</p>				
<p>AA3 Dyfarnwch 4 marc am ddadansoddiad cwbl ddatblygedig, trylwyr a chytbwys o'r ffordd mae'r gosodiad marsiandïaeth weledol a ddyluniwyd yn helpu i gyflawni nodau Urban Icon ac yn ymgysylltu ag amrywiaeth o'i fathau o gwsmeriaid.</p>				
<p>Dyfarnwch 3 marc am ddadansoddiad datblygedig a thrylwyr o'r ffordd mae'r gosodiad marsiandïaeth weledol a ddyluniwyd yn helpu i gyflawni nodau Urban Icon ac yn ymgysylltu â'i fathau o gwsmeriaid.</p>				
<p>Dyfarnwch 2 marc am ddadansoddiad sylfaenol, a all fod yn anghytbwys a/neu nad yw wedi'i ddatblygu, o'r ffordd mae'r gosodiad marsiandïaeth weledol a ddyluniwyd yn helpu i gyflawni nodau Urban Icon ac yn ymgysylltu â'i fathau o gwsmeriaid.</p>				
<p>Dyfarnwch 1 marc am ddadansoddiad cyfyngedig, a all fod yn gryno ac yn arwynebol, o'r ffordd mae'r gosodiad marsiandïaeth weledol a ddyluniwyd yn helpu i gyflawni nodau Urban Icon ac yn ymgysylltu â'i fathau o gwsmeriaid.</p>				

Canllawiau Asesu:

Mae gan Urban Icon dri nod. Y rhain yw: cynyddu gwerthiant y siop, hyrwyddo dewis newydd o ddillad gwerth uchel gan ddylunwyr i ferched ac i ddynion a gwella ymwybyddiaeth o'i siop ar-lein a'i ap.

Dylai ymgeiswyr esbonio'r canlynol:

- Sut y defnyddiwyd y nodau hyn i dywys y broses o ddylunio'r gosodiad marsiandiaeth weledol.
- Dealltwriaeth o'r ffordd y bydd y nodau hyn wedi dylanwadu ar ddylunio'r arddangosfa ffenestr.

Bydd gan Urban Icon nifer o wahanol fathau o gwsmeriaid, merched a dynion mewn oed yn bennaf, oedolion o bosibl ag incwm cyfartalog neu uchel, gan fod y siop yn gwerthu cynhyrchion brand premiwm ac mai dim ond at ferched a dynion ag incwm gwario uchel y caiff y dewis newydd o ddillad gwerth uchel gan ddylunwyr. Mae'n bosibl y bydd y mathau eraill yn cynnwys teuluoedd â phobl ifanc yn eu harddegau sydd o bosibl yn prynu dillad oedolion.

Tasg 1(ch)

Esboniwch sut y gellir addasu egwyddorion marsiandïaeth weledol ar gyfer siop ar-lein ac ap Urban Icon.

Rhaid i chi ddangos eich dealltwriaeth o'r ffordd y caiff amrywiaeth o egwyddorion marsiandïaeth weledol eu haddasu ar gyfer e-fasnach ac m-fasnach (ar-lein ac ar apiau). [6 marc]

AA1	AA1	AA2	AA3	Cyfanswm y Marciau
<p>Dyfarnwch 2 farc am ddealltwriaeth o'r ffordd y gellir addasu amrywiaeth o egwyddorion marsiandïaeth weledol ar gyfer e-fasnach ac m-fasnach (ar-lein ac ar apiau).</p> <p>Dyfarnwch 1 marc am ddealltwriaeth o'r ffordd y gellir addasu amrywiaeth gyfyngedig o egwyddorion marsiandïaeth weledol (llai na phedair) ar gyfer e-fasnach ac m-fasnach (ar-lein ac ar apiau).</p>	2	4		6
<p>AA2</p> <p>Dyfarnwch 4 marc am esboniad cwbl ddatblygedig sy'n hyderus ac yn graff ynghylch sut y gellir addasu egwyddorion marsiandïaeth weledol ar gyfer siop ar-lein ac ap Urban Icon.</p> <p>Dyfarnwch 3 marc am esboniad datblygedig sy'n berthnasol ac yn ystyrllon ynghylch sut y gellir addasu egwyddorion marsiandïaeth weledol ar gyfer siop ar-lein ac ap Urban Icon.</p> <p>Dyfarnwch 2 farc am esboniad sylfaenol sydd o bosibl yn gyffredinol ynghylch sut y gellir addasu egwyddorion marsiandïaeth weledol ar gyfer siop ar-lein ac ap Urban Icon.</p> <p>Dyfarnwch 1 marc am esboniad cyfyngedig sydd o bosibl yn arwynebol neu nad yw'n berthnasol ynghylch sut y gellir addasu egwyddorion marsiandïaeth weledol ar gyfer siop ar-lein ac ap Urban Icon.</p>				

Canllawiau Asesu:

- Gall ymgeiswyr archwilio egwyddorion marsiandïaeth weledol sy'n cynnwys adrodd stori, tirlunio, lliw a golau, manylion, gweadedd, technoleg a diogelwch. Byddant yn canolbwyntio ar y ffordd y caiff yr egwyddorion hyn eu defnyddio er mwyn addasu'r gosodiad marsiandïaeth weledol yn llwyddiannus ar gyfer y siop ar-lein a'r ap.
- Bydd llawer o adwerthwyr yn awyddus i ddefnyddio'r un ddelwedd/dyluniad ar bob sianel felly dylai'r ddelwedd a'r dyluniad a gaiff eu creu yn y siop fod yn debyg ac yn gyson wrth gyflwyno delweddau gweledol ar ei siop ar-lein a'i ap. Mae'r trosglwyddiad di-dor hwn rhwng sianeli yn helpu i gynnig profiad cyson i gwsmeriaid. Er enghraifft, gellir addasu'r un defnydd o liw, manylion a thirlunio er mwyn sicrhau bod y profiad ar-lein yr un peth â'r profiad yn y siop wirioneddol.
- Mae Urban Icon yn gwerthu dewis o gynhyrchion premiwm i ferched a dynion. Bydd y cynhyrchion hyn yn ddrud, a bydd cwsmeriaid yn disgwyl delwedd/ansawdd penodol wrth edrych ar y siop ar-lein a'r ap. Dylai'r pris a ddangosir fod yn gyson, oni bai bod disgowntiau yn cael eu cynnig ar-lein. Mae Urban Icon yn adwerthwr ffasiwn felly mae cryn dipyn o gystadleuaeth ar-lein. Felly, rhaid ystyried y farsandiäeth weledol yn ofalus er mwyn denu'r cwsmeriaid targed.

Tasg 2(a)

Dyluniwch y daflen A5 ddwyochrog i'w dosbarthu i siopwyr yng nghanol y ddinas.

Rhaid i chi ddefnyddio gwaith anodi i esbonio eich dyluniad. [10 marc]

Band	AA2
4	<p style="text-align: center;">9-10 marc</p> <p>Ymateb ardderchog sy'n dangos:</p> <ul style="list-style-type: none"> • taflen effeithiol a manwl iawn sy'n gwbl briodol ar gyfer Urban Icon • bod nodweddion dylunio wedi'u cymhwyso'n effeithiol ym mhob rhan o'r dyluniad • bod egwyddorion dylunio wedi'u cymhwyso'n gyson ym mhob rhan o'r dyluniad • gwaith anodi trylwyr i gefnogi'r dyluniad, a gaiff ei fynegi'n glir ac yn fanwl heb lawer o hepgoriadau, os o gwbl • fawr ddim gwallau mewn sillafu, atalnodi a gramadeg, os o gwbl.
3	<p style="text-align: center;">6-8 marc</p> <p>Ymateb da sy'n dangos:</p> <ul style="list-style-type: none"> • taflen effeithiol sy'n briodol ar gyfer Urban Icon • bod nodweddion dylunio wedi'u cymhwyso ym mhob rhan o'r dyluniad • bod egwyddorion dylunio wedi'u cymhwyso ym mhob rhan o'r dyluniad • gwaith anodi i gefnogi'r dyluniad, a gaiff ei fynegi'n glir heb lawer o hepgoriadau • rhai gwallau o ran sillafu, atalnodi a gramadeg.
2	<p style="text-align: center;">3-5 marc</p> <p>Ymateb sylfaenol sy'n dangos:</p> <ul style="list-style-type: none"> • taflen sy'n rhannol briodol ar gyfer Urban Icon • bod rhai nodweddion dylunio wedi'u cymhwyso ym mhob rhan o'r dyluniad • bod rhai egwyddorion dylunio wedi'u cymhwyso ym mhob rhan o'r dyluniad • rhywfaint o waith anodi i gefnogi'r dyluniad, a all gynnwys hepgoriadau • gwallau o ran sillafu, atalnodi a gramadeg.
1	<p style="text-align: center;">1-2 marc</p> <p>Ymateb cyfyngedig sy'n dangos:</p> <ul style="list-style-type: none"> • taflen nad yw o bosibl yn briodol ar gyfer Urban Icon • bod nodweddion dylunio wedi'u cymhwyso mewn ffordd gyfyngedig ym mhob rhan o'r dyluniad • bod egwyddorion dylunio wedi'u cymhwyso mewn ffordd gyfyngedig ym mhob rhan o'r dyluniad • gwaith anodi prin i gefnogi'r dyluniad, neu ddim o gwbl • gwallau mynych o ran sillafu, atalnodi a gramadeg.
	<p style="text-align: center;">0 marc</p> <p style="text-align: center;">Nid yw'r ateb yn haeddu credyd neu ni wnaed ymgais i ateb.</p>

Canllawiau Asesu:

Dylai'r ymgeisydd fod wedi llunio cynnyrch fel a ganlyn:

- taflen A5 ddwyochrog broffesiynol sy'n addas ar gyfer adwerthwr ffasiwn brand premiwm. Dylid ei llunio gan ddefnyddio meddalwedd TG gan mai dyna y mae cwsmeriaid yn ei ddisgwyl.
- sy'n seiliedig ar y nodweddion dylunio; sy'n defnyddio iaith berswadiol, gramadeg, sillafu, atalnodi, defnyddio delweddau, defnyddio lliw, addas ar gyfer y gynulleidfa darged (cwsmeriaid sy'n bodoli eisoes a chwsmeriaid newydd) a chefnogi'r cymysgedd marchnata.
- nad yw'n cynnwys unrhyw wallau ac sy'n cynnwys enw'r adwerthwr, ei leoliad a chyfeiriad y wefan a manylion yr ap
- sy'n defnyddio egwyddorion dylunio gan gynnwys rhai sy'n hawdd eu deall, sy'n cyfleu neges glir, sy'n apelgar ac sy'n gyson â'r ddelwedd brand a welir mewn mannau eraill.

DRAFT

Tasg 2(b)

Dadansoddwch sut mae'r daflen A5 ddwyochrog yn targedu darpar gwsmeriaid Urban Icon a'i nodau.

[4 marc]

AA2	AA1	AA2	AA3	Cyfanswm y Marciau
<p>Dyfarnwch 2 farc am gymhwyso'r wybodaeth at Urban Icon mewn ffordd dda, gan wneud pwyntiau sy'n berthnasol i ddarpar gwsmeriaid Urban Icon a'i nodau.</p> <p>Dyfarnwch 1 marc am gymhwyso'r wybodaeth at Urban Icon mewn ffordd sylfaenol, gan wneud pwyntiau sy'n gyffredinol ac nad ydynt yn berthnasol i ddarpar gwsmeriaid Urban Icon a'i nodau.</p>		2	2	4
<p>AA3</p> <p>Dyfarnwch 2 farc am ddadansoddiad mwy datblygedig o'r ffordd mae'r daflen yn targedu darpar gwsmeriaid Urban Icon a'i nodau sy'n rhesymegol ac yn gwneud defnydd da o dermau a chysyniadau.</p> <p>Dyfarnwch 1 marc am ddadansoddiad sylfaenol o'r ffordd mae'r daflen yn targedu darpar gwsmeriaid Urban Icon a'i nodau sydd o bosibl yn gryno ac yn arwynebol â defnydd cyfyngedig, os o gwbl, o dermau a chysyniadau.</p>				

Canllawiau Asesu:

- Mae'r darpar gwsmeriaid yn cynnwys merched a dynion ag incwm gwario cyfartalog neu uchel sy'n hoffi dillad ac ategolion brand premiwm. Bydd y cwsmeriaid hyn yn ymwybodol o ffasiynau ac yn barod i dalu cryn dipyn o arian am y brandiau premiwm hyn.
- Mae gan Urban Icon dri nod, sef: cynyddu gwerthiant y siop, hyrwyddo dewis newydd o ddillad gwerth uchel gan ddylunwyr i ferched ac i ddynion a gwella ymwybyddiaeth o'i siop ar-lein a'i ap. Dylai'r daflen gynnwys delweddau a gwybodaeth sy'n cefnogi'r nodau hyn.
- Bydd yr esboniad yn cyfeirio at y daflen a'r ffordd y dylanwadodd y darpar gwsmeriaid a'r nodau ar y ffordd y dyluniwyd y daflen a pha wybodaeth a gafodd ei chynnwys. Yn yr enghreifftiau gwell, ceir cyfiawnhad dros y dewisiadau ar gyfer y dyluniad.

Tasg 2(c)

Esboniwch sut y gallai Urban Icon ddefnyddio technoleg at ddibenion hyrwyddo.

[6 marc]

AA1	AA1	AA2	AA3	Cyfanswm y Marciau
<p>Dyfarnwch 2 farc am ddealltwriaeth o amrywiaeth o ffyrdd y gellir cynnal gweithgareddau hyrwyddo gan ddefnyddio technoleg.</p> <p>Dyfarnwch 1 marc am ddealltwriaeth o amrywiaeth gyfyngedig o ffyrdd (llai na phedair) y gellir cynnal gweithgareddau hyrwyddo gan ddefnyddio technoleg.</p> <p>AA2</p> <p>Dyfarnwch 4 marc am esboniad cwbl ddatblygedig sy'n hyderus ac yn graff ynghylch sut y gallai Urban Icon ddefnyddio technoleg at ddibenion hyrwyddo.</p> <p>Dyfarnwch 3 marc am esboniad datblygedig sy'n berthnasol ac yn ystyrllon ynghylch sut y gallai Urban Icon ddefnyddio technoleg at ddibenion hyrwyddo.</p> <p>Dyfarnwch 2 farc am esboniad sylfaenol sydd o bosibl yn gyffredinol ynghylch sut y gallai Urban Icon ddefnyddio technoleg at ddibenion hyrwyddo.</p> <p>Dyfarnwch 1 marc am esboniad cyfyngedig sydd o bosibl yn arwynebol neu nad yw'n berthnasol ynghylch sut y gallai Urban Icon ddefnyddio technoleg at ddibenion hyrwyddo.</p>	2	4		6

Canllawiau Asesu:

Gall ymgeiswyr archwilio materion fel y canlynol:

- Mae technoleg wedi effeithio ar y ffordd mae busnesau adwerthu yn cynnal gweithgareddau hyrwyddo mewn sawl ffordd, gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol, y cyfryngau digidol, hysbysebu ar beiriannau chwilio, blogiau, hysbysebion naid a hysbysebu symudol.
- Gall Urban Icon ddefnyddio gwefannau'r cyfryngau cymdeithasol i hysbysebu ei gynhyrchion. Maent yn addas o ran targedu hysbysebion at gwsmeriaid penodol. Mae'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a bydd hysbysebu ar wefannau mwyaf poblogaidd y cyfryngau cymdeithasol o bosibl yn denu llawer o ddefnyddwyr. Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn ffordd effeithiol o hysbysebu cynhyrchion newydd er mwyn gwella ymwybyddiaeth o'r brand, sef un o nodau Urban Icon. Mae rhannau rhyngweithiol y cyfryngau cymdeithasol yn cynnig y cyfle i gwsmeriaid ofyn cwestiynau i Urban Icon neu gwyno a theimlo bod rhywun yn gwrandao arnynt. Mae llawer o gwsmeriaid hefyd yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i ofyn cwestiynau yn uniongyrchol i'r busnes ac ystyrir eu bod yn adnodd allweddol o ran gwasanaeth cwsmeriaid.
- Ystyr hysbysebu digidol yw defnyddio technoleg mewn hysbysebion ar-lein, e-bost, gwefannau cyfryngau cymdeithasol a dyfeisiau symudol mewn ffordd ddynamig a rhyngweithiol. Fel adwerthwr ffasiwn, mae'n bwysig bod cynhyrchio Urban Icon yn cael eu cyflwyno i safon uchel.
- Ystyr blogiau yw gwefannau trafod neu wefannau addysgiadol, math o gyfnodolyn neu ddyddiadur, wedi'u sefydlu gan unigolion a busnesau. Caiff blogiau eu diweddar'u rheolaidd gan gyflwyno safbwyntiau'r blogiwr ac fe'u defnyddir fel man lle y gellir rhannu syniadau a diddordebau. Gall Urban Icon sefydlu ei flog ei hun a gall ei ddefnyddio i hysbysebu ei gynhyrchion a chyfeirio darllenwyr at wefan ac ap ei siop.
- Mae hysbysebu symudol yn ffordd o hysbysebu sy'n ymddangos ar ddyfeisiau symudol fel ffoniau clyfar, llechi neu gynorthwywyr digidol personol (PDA) â chysylltiadau di-wifr. Gellir teilwra'r hysbysebion ar gyfer defnyddwyr unigol drwy ddefnyddio eu hanes pori a'u lleoliad daearyddol. Mae'n debygol y bydd gan gwsmeriaid Urban Icon ddyfeisiau o'r fath ac mae'n ffordd dda o godi ymwybyddiaeth o'i wefan a'i ap.

Tasg 2(ch)

Gwerthuswch sut y bydd Urban Icon yn defnyddio'r cymysgedd marchnata er mwyn cyflawni ei nodau mewn amgylchedd cystadleuol a dynamig.

AA1 Dyfarnwch 2 farc am ddealltwriaeth dda o'r cymysgedd marchnata sy'n gynhwysfawr ac yn gywir.	AA1	AA2	AA3	Cyfanswm y Marciau
<p>Dyfarnwch 1 marc am ddealltwriaeth sylfaenol o'r cymysgedd marchnata sydd o bosibl yn gyfyngedig ac yn arwynebol ac yn cynnwys anghywirdebau.</p> <p>AA2 Dyfarnwch 2 farc am gymhwyso'r wybodaeth at Urban Icon mewn ffordd dda, gan wneud pwyntiau sy'n berthnasol i Urban Icon a'i nodau.</p> <p>Dyfarnwch 1 marc am gymhwyso'r wybodaeth at Urban Icon mewn ffordd sylfaenol, gan wneud pwyntiau sy'n gyffredinol ac nad ydynt yn berthnasol i nodau Urban Icon.</p>	2	2	6	10
Band	AA3			
3	<p style="text-align: center;">5-6 marc</p> <p>Ymateb da iawn sy'n dangos:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gwerthusiad cwbl ddatblygedig o'r ffordd y bydd Urban Icon yn defnyddio'r cymysgedd marchnata i gyflawni ei nodau • gwerthusiad cwbl gytbwys o bedair elfen y cymysgedd marchnata • barnau cwbl ystyrllon a gaiff eu cefnogi'n effeithiol • rhoddir ystyriaeth i'r ffordd mae pedair elfen y cymysgedd marchnata yn cydweithio. 			
2	<p style="text-align: center;">3-4 marc</p> <p>Ymateb da sy'n dangos:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gwerthusiad datblygedig o'r ffordd y bydd Urban Icon yn defnyddio'r cymysgedd marchnata i gyflawni ei nodau • gwerthusiad cytbwys o bedair elfen y cymysgedd marchnata NEU • gwerthusiad cwbl gytbwys o dair o bedair elfen y cymysgedd marchnata • barnau ystyrllon a gaiff eu cefnogi. 			
1	<p style="text-align: center;">1-2 farc</p> <p>Ymateb sylfaenol sy'n dangos:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gwerthusiad cyfyngedig o'r ffordd y bydd Urban Icon yn defnyddio'r cymysgedd marchnata i gyflawni ei nodau • nid yw'r gwerthusiad o'r cymysgedd marchnata yn gytbwys, ac mae'n bosibl bod rhai elfennau ar goll • rhai barnau nad ydynt o bosibl wedi'u cefnogi. 			
	<p style="text-align: center;">0 marc</p> <p style="text-align: center;">Nid yw'r ateb yn haeddu credyd neu ni wnaed ymgais i ateb.</p>			

Canllawiau Asesu:

- Y cymysgedd marchnata yw'r dull a ddefnyddir gan fusnes i roi ei strategaeth farchnata ar waith a chyflawni ei nodau.
- Gall busnesau addasu eu cymysgedd marchnata er mwyn cyflawni eu nodau. Mae'r cymysgedd marchnata yn cynnwys pedair agwedd: cynnyrch, pris, lleoliad a hyrwyddo. Mae'n bwysig bod Urban Icon yn cymysgu gwahanol agweddau'r cymysgedd marchnata er mwyn cyflawni ei nodau a chystadlu ag adwerthwyr ffasiwn eraill yn ei siop ac ar-lein. Os na fydd y pedair agwedd yn cydweithio, mae Urban Icon yn debygol o'i chael hi'n anodd ac nid yw'n debygol o allu cyflawni ei nodau.
- Mae Urban Icon yn gwerthu dewis o gynnyrch premiwm, felly mae'n bwysig bod y dulliau prisio a hyrwyddo a ddefnyddir ganddynt yn addas ar gyfer y mathau hyn o gynhyrchion. Gan y bydd y brandiau yn debygol o gynnwys brandiau ffasiwn adnabyddus fel Burberry, Saint Laurent, Ralph Lauren, Nike, Levi's a Superdry, bydd y prisiau yn uchel ond bydd yn rhaid iddynt gystadlu ag adwerthwyr eraill sy'n gwerthu'r brandiau hyn. Wrth ystyried pa gynhyrchion i'w gwerthu, mae angen i Urban Icon ystyried yr ansawdd, y dewis, y steil a'r dyluniad, gwahaniaethu, brandio a phwyntiau gwerthu unigryw.
- Dylai'r pris y bydd yn ei godi am ei gynhyrchion adlewyrchu'r gwerth y mae'r cwsmeriaid yn ei roi ar y cynnyrch ond dylai hefyd ystyried faint y mae'n ei gostio i brynu'r cynnyrch a'r prisiau a godir gan gystadleuwyr. Gall Urban Icon hefyd ddefnyddio dulliau prisio addas fel dulliau sgimio neu ddulliau seicolegol.
- Mae Urban Icon yn defnyddio aml-sianeli i werthu ei gynhyrchion drwy ei siop, ei wefan a'i ap. Mae hyn yn addas ar gyfer ei gwsmeriaid targed sy'n debygol o ddisgwyl dewis o fannau i siopa er mwyn prynu dillad ffasiynol gwerth uchel. Mae llawer ohonynt yn gweithio oriau hir felly bydd gwefan ac ap yn apelio atynt.
- Bydd angen i ddarpar gwsmeriaid wybod pa gynhyrchion y mae Urban Icon yn eu gwerthu; felly, mae angen gweithgareddau hyrwyddo er mwyn rhoi gwybod i gwsmeriaid beth y mae'n ei werthu a ble y gallant gael gafael ar y cynhyrchion hynny. Rhaid i Urban Icon ystyried y ffordd orau o hyrwyddo ei fusnes a pha gyfryngau hysbysebu i'w defnyddio. Mae hefyd yn hanfodol bod yr hysbysebu hwn yn cydfynd â delwedd y cynhyrchion y mae'n eu gwerthu a'i fod yn apelio at ei farchnad darged. Mae'r diwydiant ffasiwn yn symud yn gyflym ac mae'n defnyddio cryn dipyn o dechnoleg yn ei weithgareddau marchnata, felly mae'n bwysig bod Urban Icon hefyd yn defnyddio technoleg, fel y cyfryngau cymdeithasol a blogiau er mwyn bod yn llwyddiannus o fewn marchnad gystadleuol a dynamig.

Meini Prawf Asesu ar gyfer Uned 3

Cwestiwn		Dyraniad Marciau															
		Adran												Cyfanswm	AA1	AA2	AA3
		3.1.1	3.1.2	3.1.3	3.1.4	3.1.5	3.1.6	3.2.1	3.2.2	3.2.3	3.2.4	3.2.5					
1	(a)		✓	✓			✓							10		10	
	(b)			✓		✓								6	2		4
	(c)*	✓												8		4	4
	(ch)				✓									6	2	4	
2	(a)									✓				10		10	
	(b)*						✓							4		2	2
	(c)*									✓				6	2	4	
	(ch)*							✓					✓	10	2	2	6
		Cyfanswm												60	8	36	16

* yn cynnig cyfle i ddod â gwybodaeth a dealltwriaeth o bob rhan o'r cwrs astudio llawn ynghyd